- I124** A. 55 mewn grym ar 1.9.2022 at ddibenion penodedig gan [O.S. 2022/894](#), [ergl. 3\(j\)](#)
- I125** A. 55 mewn grym ar 1.1.2022 at ddibenion penodedig gan [O.S. 2021/1243](#), [ergl. 3\(j\)](#) (ynghyd ag [erglau. 4-23](#)) (fel y'u diwygiwyd gan [O.S. 2021/1428](#), [ergl. 2](#) ac (10.6.2022) gan [O.S. 2022/663](#), [ergl. 2](#) ac (21.8.2023) gan [O.S. 2023/932](#), [ergl. 2](#))
- I126** A. 55 mewn grym ar 1.1.2022 at ddibenion penodedig gan [O.S. 2021/1244](#), [ergl. 3\(j\)](#) (ynghyd ag [erglau. 4-21](#)) (fel y'u diwygiwyd gan [O.S. 2021/1428](#), [ergl. 3](#) ac (10.6.2022) gan [O.S. 2022/663](#), [ergl. 3](#) ac (21.8.2023) gan [O.S. 2023/932](#), [ergl. 3](#))
- I127** A. 55 mewn grym ar 1.9.2022 at ddibenion penodedig gan [O.S. 2022/891](#), [ergl. 3\(j\)](#) (ynghyd ag [erglau. 4-25](#)) (fel y'u diwygiwyd (21.8.2023) gan [O.S. 2023/932](#), [ergl. 4](#))
- I128** A. 55 mewn grym ar 1.9.2022 at ddibenion penodedig gan [O.S. 2022/896](#), [ergl. 3\(j\)](#) (ynghyd ag [erglau. 4-22](#)) (fel y'u diwygiwyd (21.8.2023) gan [O.S. 2023/932](#), [ergl. 5](#))

*Statws Golwg cyfnod mewn amser fel yr oedd ar 21/08/2023.*

*Newidiadau i ddeddfwriaeth: Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018, PENNOD 3 yn gyfredol gyda'r holl newidiadau y gwyddys eu bod mewn grym ar neu cyn 21 Mehefin 2024. Mae newidiadau a all gael eu dwyn i rym yn y dyfodol. Mae newidiadau a wnaed yn ymddangos yn y cynnwys a chyfeirir atynt trwy anodiadau. (See end of Document for details)*

**I129** A. 55 mewn grym ar 1.9.2022 at ddibenion penodedig gan O.S. 2022/897, **ergl. 3(j)** (ynghyd ag **ergl. 1(8), 4-21**) (fel y'u diwygiwyd (21.8.2023) gan O.S. 2023/932, **ergl. 6**)

## 56 Rhestr o sefydliadau ôl-16 arbennig annibynnol

- (1) Rhaid i Weinidogion Cymru sefydlu a chynnal rhestr o sefydliadau ôl-16 arbennig annibynnol yng Nghymru a Lloegr (“y rhestr”) at ddiben is-adran (3).
- (2) Rhaid i Weinidogion Cymru gyhoeddi'r rhestr, fel y'i diwygir o bryd i'w gilydd.
- (3) Dim ond os yw sefydliad ôl-16 arbennig annibynnol yng Nghymru neu yn Lloegr wedi ei gynnwys yn y rhestr y caiff awdurdod lleol arfer ei swyddogaethau o dan y Rhan hon i sicrhau addysg neu hyfforddiant ar gyfer plentyn neu berson ifanc yn y sefydliad hwnnw, yn ddarostyngedig i unrhyw esemptiadau rhagnodedig.
- (4) Dim ond ar gais perchennog sefydliad y caiff Gweinidogion Cymru gynnwys y sefydliad hwnnw yn y rhestr.
- (5) Rhaid i reoliadau ddarparu ar gyfer—
  - (a) cynnwys y rhestr;
  - (b) gofynion y mae rhaid cydymffurfio â hwy fel amod o gynnwys y sefydliad yn y rhestr;
  - (c) gofynion y mae rhaid cydymffurfio â hwy tra bo'r sefydliad wedi ei restru (gan gynnwys gofynion o ran cael cymeradwyaeth Gweinidogion Cymru i drefniadau yn y sefydliad ac i newid trefniadau o'r fath);
  - (d) dileu'r sefydliad o'r rhestr;
  - (e) yr hawl i berchenogion sefydliadau apelio i'r Tribiwnlys Haen Gyntaf yn erbyn penderfyniadau—
    - (i) i wrthod restru sefydliad;
    - (ii) i ddileu sefydliad o'r rhestr;
    - (iii) i beidio â chymeradwyo trefniadau yn y sefydliad neu i beidio â chymeradwyo newid iddynt.
- (6) Yn yr adran hon, ystyr “sefydliad ôl-16 arbennig annibynnol” yw sefydliad sy'n darparu addysg neu hyfforddiant ar gyfer personau sy'n hŷn na'r oedran ysgol gorffodol ac sydd wedi ei drefnu'n arbennig i ddarparu addysg neu hyfforddiant o'r fath ar gyfer personau ag anghenion dysgu ychwanegol, ac nad yw'n—
  - (a) sefydliad yn y sector addysg bellach,
  - (b) ysgol annibynnol sydd wedi ei chynnwys yn y gofrestr o ysgolion annibynnol yng Nghymru (a gedwir o dan adran 158 o [Ddeddf Addysg 2002 \(p. 32\)](#)),
  - (c) sefydliad addysgol annibynnol (o fewn ystyr Pennod 1 o Ran 4 o [Ddeddf Addysg a Sgiliau 2008 \(p. 25\)](#)), sydd wedi ei gynnwys yn y gofrestr o sefydliadau addysgol annibynnol yn Lloegr (a gedwir o dan adran 95 o'r [Ddeddf honno](#)), neu
  - (d) Academi 16 i 19.

### Gwybodaeth Cychwyn

**I130** A. 56 ddim mewn grym ar y Cydsyniad Brenhinol, gweler **a. 100(3)**

**I131** A. 56 mewn grym ar 2.11.2020 at ddibenion penodedig gan O.S. 2020/1182, **rhl. 3(1)(f)**

**I132** A. 56 mewn grym ar 1.9.2021 i'r graddau nad yw eisoes mewn grym gan O.S. 2021/373, **ergl. 8(d)**

*Statws Golwg cyfnod mewn amser fel yr oedd ar 21/08/2023.*

*Newidiadau i ddeddfwriaeth: Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018, PENNOD 3 yn gyfredol gyda'r holl newidiadau y gwyddys eu bod mewn grym ar neu cyn 21 Mehefin 2024. Mae newidiadau a all gael eu dwyn i rym yn y dyfodol. Mae newidiadau a wnaed yn ymddangos yn y cynnwys a chyfeirir atynt trwy anodiadau. (See end of Document for details)*

- I133** [A. 56\(1\)](#) mewn grym ar 4.1.2021 i'r graddau nad yw eisoes mewn grym gan [O.S. 2020/1182](#), [rhl. 4\(2\)\(a\)](#)
- I134** [A. 56\(4\)-\(6\)](#) mewn grym ar 4.1.2021 i'r graddau nad yw eisoes mewn grym gan [O.S. 2020/1182](#), [rhl. 4\(2\)\(b\)](#)

## 57 Diddymu cymeradwyo ysgolion arbennig nas cynhelir yng Nghymru

- (1) Mae [Deddf Addysg 1996 \(p. 56\)](#) wedi ei diwygio fel a ganlyn.
- (2) Yn adran 337A (dehongli'r Bennod), hepgorer y diffiniad o “the appropriate national authority”.
- (3) Yn adran 342 (cymeradwyo ysgolion arbennig nas cynhelir)—
- (a) yn is-adran (1)—
    - (i) yn lle “appropriate national authority” rhodder “Secretary of State”, a
    - (ii) ar ôl “school”, y tro cyntaf y mae'n ymddangos, mewnosoder “in England”;
  - (b) yn is-adran (5)(a), yn lle “appropriate national authority” rhodder “Secretary of State”;
  - (c) hepgorer is-adran (6).

### Gwybodaeth Cychwyn

- I135** [A. 57](#) ddim mewn grym ar y Cydsyniad Brenhinol, gweler [a. 100\(3\)](#)
- I136** [A. 57](#) mewn grym ar 1.9.2021 gan [O.S. 2021/373](#), [ergl. 8\(e\)](#)

## 58 Diddymu cymeradwyo ysgolion annibynnol yng Nghymru

Mae adran 347 o [Ddeddf Addysg 1996 \(p. 56\)](#) (cymeradwyo ysgolion annibynnol fel rhai sy'n addas i dderbyn plant â datganiadau anghenion addysgol arbennig) wedi ei diddymu.

### Gwybodaeth Cychwyn

- I137** [A. 58](#) ddim mewn grym ar y Cydsyniad Brenhinol, gweler [a. 100\(3\)](#)
- I138** [A. 58](#) mewn grym ar 1.9.2021 gan [O.S. 2021/373](#), [ergl. 8\(e\)](#)

## 59 Darpariaeth ddysgu ychwanegol y tu allan i Gymru a Lloegr

Caiff awdurdod lleol arfer ei swyddogaethau o dan y Rhan hon i wneud trefniadau i blentyn neu berson ifanc ag anghenion dysgu ychwanegol fynychu sefydliad y tu allan i Gymru a Lloegr, ond dim ond os yw'r sefydliad wedi ei drefnu i wneud y ddarpariaeth ddysgu ychwanegol a ddisgrifir yng nghynllun datblygu unigol y plentyn neu'r person ifanc.

### Gwybodaeth Cychwyn

- I139** [A. 59](#) ddim mewn grym ar y Cydsyniad Brenhinol, gweler [a. 100\(3\)](#)
- I140** [A. 59](#) mewn grym ar 1.9.2021 at ddibenion penodedig gan [O.S. 2021/373](#), [erglau. 3, 4](#) (fel y'u diwygiwyd gan [O.S. 2021/938](#), [ergl. 2\(3\)](#))

*Statws Golwg cyfnod mewn amser fel yr oedd ar 21/08/2023.*

*Newidiadau i ddeddfwriaeth: Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018, PENNOD 3 yn gyfredol gyda'r holl newidiadau y gwyddys eu bod mewn grym ar neu cyn 21 Mehefin 2024. Mae newidiadau a all gael eu dwyn i rym yn y dyfodol. Mae newidiadau a wnaed yn ymddangos yn y cynnwys a chyfeirir atynt trwy anodiadau. (See end of Document for details)*

- I141** A. 59 mewn grym ar 1.9.2021 at ddibenion penodedig gan O.S. 2021/373, **erglau. 6, 7** (fel y'u diwygiwyd gan O.S. 2021/938, **ergl. 2(4)(5)**)
- I142** A. 59 mewn grym ar 1.1.2022 at ddibenion penodedig gan O.S. 2021/1245, **erglau. 3(k), 4** (ynghyd ag **ergl. 1(4)**)
- I143** A. 59 mewn grym ar 1.9.2022 at ddibenion penodedig gan O.S. 2022/894, **ergl. 3(k)**
- I144** A. 59 mewn grym ar 1.9.2022 at ddibenion penodedig gan O.S. 2022/893, **ergl. 4** (ynghyd ag **ergl. 1(2)**)
- I145** A. 59 mewn grym ar 1.9.2022 at ddibenion penodedig gan O.S. 2022/895, **erglau. 3(k), 4**
- I146** A. 59 mewn grym ar 1.9.2022 at ddibenion penodedig gan O.S. 2022/892, **ergl. 3(k)** (ynghyd ag **erglau. 2, 4-18**)
- I147** A. 59 mewn grym ar 1.9.2022 at ddibenion penodedig gan O.S. 2022/898, **erglau. 2(k), 3**
- I148** A. 59 mewn grym ar 1.1.2022 at ddibenion penodedig gan O.S. 2021/1243, **ergl. 3(k)** (ynghyd ag **erglau. 4-23**) (fel y'u diwygiwyd gan O.S. 2021/1428, **ergl. 2** ac (10.6.2022) gan O.S. 2022/663, **ergl. 2** ac (21.8.2023) gan O.S. 2023/932, **ergl. 2**)
- I149** A. 59 mewn grym ar 1.1.2022 at ddibenion penodedig gan O.S. 2021/1244, **ergl. 3(k)** (ynghyd ag **erglau. 4-21**) (fel y'u diwygiwyd gan O.S. 2021/1428, **ergl. 3** ac (10.6.2022) gan O.S. 2022/663, **ergl. 3** ac (21.8.2023) gan O.S. 2023/932, **ergl. 3**)
- I150** A. 59 mewn grym ar 1.9.2022 at ddibenion penodedig gan O.S. 2022/891, **ergl. 3(k)** (ynghyd ag **erglau. 4-25**) (fel y'u diwygiwyd (21.8.2023) gan O.S. 2023/932, **ergl. 4**)
- I151** A. 59 mewn grym ar 1.9.2022 at ddibenion penodedig gan O.S. 2022/896, **ergl. 3(k)** (ynghyd ag **erglau. 4-22**) (fel y'u diwygiwyd (21.8.2023) gan O.S. 2023/932, **ergl. 5**)
- I152** A. 59 mewn grym ar 1.9.2022 at ddibenion penodedig gan O.S. 2022/897, **ergl. 3(k)** (ynghyd ag **erglau. 1(8), 4-21**) (fel y'u diwygiwyd (21.8.2023) gan O.S. 2023/932, **ergl. 6**)

### *Swyddogion cydlynu anghenion dysgu ychwanegol*

## **60 Cydlynnydd anghenion dysgu ychwanegol**

- (1) Mae'r ddyletswydd yn is-adran (2) yn gymwys—
- (a) i gorff llywodraethu ysgol yng Nghymru—
- (i) sy'n ysgol gymunedol, yn ysgol sefydledig neu'n ysgol wirfoddol,
- (ii) sy'n ysgol feithrin a gynhelir, neu
- (iii) sy'n uned cyfeirio disgyblion;
- (b) i gorff llywodraethu sefydliad yn y sector addysg bellach yng Nghymru.
- (2) Rhaid i'r corff llywodraethu ddynodi person, neu fwy nag un person, i fod â chyfrifoldeb am gydlynu darpariaeth ddysgu ychwanegol ar gyfer disgyblion neu fyfyrwyr (yn ôl y digwydd) ag anghenion dysgu ychwanegol.
- (3) Mae person sydd wedi ei ddynodi o dan yr adran hon i gael ei alw'n "cydlynnydd anghenion dysgu ychwanegol".
- (4) Caiff rheoliadau—
- (a) ei gwneud yn ofynnol i gyrff llywodraethu sicrhau bod gan gydlynwyr anghenion dysgu ychwanegol gymwysterau rhagnodedig neu brofiad rhagnodedig (neu'r ddau);
- (b) rhoi swyddogaethau i gydlynwyr anghenion dysgu ychwanegol mewn perthynas â darparu ar gyfer disgyblion neu fyfyrwyr (yn ôl y digwydd) ag anghenion dysgu ychwanegol.
- (5) Yn is-adrannau (2) a (4)(b), ystyr "myfyrwyr" yw myfyrwyr sydd wedi ymrestru yn y sefydliad yn y sector addysg bellach.



Statws Golwg cyfnod mewn amser fel yr oedd ar 21/08/2023.

Newidiadau i ddeddfwriaeth: Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018, PENNOD 3 yn gyfredol gyda'r holl newidiadau y gwyddys eu bod mewn grym ar neu cyn 21 Mehefin 2024. Mae newidiadau a all gael eu dwyn i rym yn y dyfodol. Mae newidiadau a wnaed yn ymddangos yn y cynnwys a chyfeirir atynt trwy anodiadau. (See end of Document for details)

#### Gwybodaeth Cychwyn

- I153** A. 60 ddim mewn grym ar y Cydsyniad Brenhinol, gweler **a. 100(3)**  
**I154** A. 60 mewn grym ar 2.11.2020 at ddibenion penodedig gan **O.S. 2020/1182, rhl. 3(1)(g)**  
**I155** A. 60 mewn grym ar 4.1.2021 i'r graddau nad yw eisoes mewn grym gan **O.S. 2020/1182, rhl. 4(2)(c)**

### 61 Swyddog arweiniol clinigol addysg dynodedig

- (1) Rhaid i Fwrdd Iechyd Lleol ddynodi swyddog i fod â chyfrifoldeb am gydlynu swyddogaethau'r Bwrdd mewn perthynas â phlant a phobl ifanc ag anghenion dysgu ychwanegol.
- (2) Ni chaiff Bwrdd Iechyd Lleol ond dynodi swyddog—
  - (a) sy'n ymarferydd meddygol cofrestredig, neu
  - (b) sy'n nyrs gofrestredig neu'n weithiwr iechyd proffesiynol arall.
- (3) Ni chaiff Bwrdd Iechyd Lleol ond dynodi swyddog y mae'n ystyried ei fod yn meddu ar gymwysterau a phrofiad addas o ran darparu gofal iechyd ar gyfer plant a phobl ifanc ag anghenion dysgu ychwanegol.
- (4) Mae swyddog sydd wedi ei ddynodi o dan yr adran hon i gael ei alw'n "swyddog arweiniol clinigol addysg dynodedig".

#### Gwybodaeth Cychwyn

- I156** A. 61 ddim mewn grym ar y Cydsyniad Brenhinol, gweler **a. 100(3)**  
**I157** A. 61 mewn grym ar 4.1.2021 gan **O.S. 2020/1182, rhl. 4(1)**

### 62 Swyddog arweiniol anghenion dysgu ychwanegol blynyddoedd cynnar

- (1) Rhaid i awdurdod lleol ddynodi swyddog i fod â chyfrifoldeb am gydlynu swyddogaethau'r awdurdod o dan y Rhan hon mewn perthynas â phlant sydd o dan yr oedran ysgol gorffodol nad ydynt yn mynychu ysgolion a gynhelir.
- (2) Mae swyddog sydd wedi ei ddynodi o dan yr adran hon i gael ei alw'n "swyddog arweiniol anghenion dysgu ychwanegol blynyddoedd cynnar".

#### Gwybodaeth Cychwyn

- I158** A. 62 ddim mewn grym ar y Cydsyniad Brenhinol, gweler **a. 100(3)**  
**I159** A. 62 mewn grym ar 4.1.2021 gan **O.S. 2020/1182, rhl. 4(1)**

Swyddogaethau amrywiol

### 63 Dyletswydd i gadw darpariaeth ddysgu ychwanegol o dan adolygiad

- (1) Rhaid i awdurdod lleol gadw o dan adolygiad y trefniadau a wneir gan yr awdurdod a chan gyrff llywodraethu ysgolion a gynhelir yn ei ardal ar gyfer plant a phobl ifanc ag anghenion dysgu ychwanegol.

*Statws Golwg cyfnod mewn amser fel yr oedd ar 21/08/2023.*

*Newidiadau i ddeddfwriaeth: Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018, PENNOD 3 yn gyfredol gyda'r holl newidiadau y gwyddys eu bod mewn grym ar neu cyn 21 Mehefin 2024. Mae newidiadau a all gael eu dwyn i rym yn y dyfodol. Mae newidiadau a wnaed yn ymddangos yn y cynnwys a chyfeirir atynt trwy anodiadau. (See end of Document for details)*

- (2) Rhaid i'r awdurdod lleol ystyried y graddau y mae'r trefniadau y cyfeirir atynt yn is-adran (1) yn ddigonol i ddiwallu anghenion dysgu ychwanegol y plant a'r bobl ifanc y mae'n gyfrifol amdanynt, gan roi sylw i'r ddarpariaeth ddysgu ychwanegol a all gael ei threfnu'n rhesymol gan eraill.
- (3) Mae'r ddyletswydd yn is-adran (2) yn cynnwys dyletswydd i ystyried—
  - (a) digonolrwydd darpariaeth ddysgu ychwanegol yn Gymraeg;
  - (b) maint a gallu'r gweithlu sydd ar gael.
- (4) Os bydd awdurdod lleol yn ystyried nad yw'r trefniadau y cyfeirir atynt yn is-adran (1) (gan gynnwys y ddarpariaeth ddysgu ychwanegol sydd ar gael yn Gymraeg) yn ddigonol, rhaid iddo gymryd pob cam rhesymol i unioni'r mater.
- (5) Wrth arfer ei swyddogaethau o dan yr adran hon, rhaid i'r awdurdod lleol ymgynghori ag unrhyw bersonau, ac ar unrhyw adegau, y mae'n ystyried eu bod yn briodol.

#### Gwybodaeth Cychwyn

- I160** A. 63 ddim mewn grym ar y Cydsyniad Brenhinol, gweler **a. 100(3)**
- I161** A. 63 mewn grym ar 1.9.2021 at ddibenion penodedig gan O.S. 2021/373, **erglau. 6, 7** (fel y'u diwygiwyd gan O.S. 2021/938, **ergl. 2(4)(5)**)
- I162** A. 63 mewn grym ar 1.9.2021 at ddibenion penodedig gan O.S. 2021/373, **erglau. 3, 4** (fel y'u diwygiwyd gan O.S. 2021/938, **ergl. 2(3)**)
- I163** A. 63 mewn grym ar 1.1.2022 at ddibenion penodedig gan O.S. 2021/1245, **erglau. 3(I), 4** (ynghyd ag **ergl. 1(4)**)
- I164** A. 63 mewn grym ar 1.9.2022 at ddibenion penodedig gan O.S. 2022/898, **erglau. 2(I), 3**
- I165** A. 63 mewn grym ar 1.9.2022 at ddibenion penodedig gan O.S. 2022/895, **erglau. 3(I), 4**
- I166** A. 63 mewn grym ar 1.9.2022 at ddibenion penodedig gan O.S. 2022/894, **ergl. 3(I)**
- I167** A. 63 mewn grym ar 1.9.2022 at ddibenion penodedig gan O.S. 2022/893, **ergl. 4** (ynghyd ag **ergl. 1(2)**)
- I168** A. 63 mewn grym ar 1.9.2022 at ddibenion penodedig gan O.S. 2022/892, **ergl. 3(I)** (ynghyd ag **erglau. 2, 4-18**)
- I169** A. 63 mewn grym ar 1.1.2022 at ddibenion penodedig gan O.S. 2021/1243, **ergl. 3(I)** (ynghyd ag **erglau. 4-23**) (fel y'u diwygiwyd gan O.S. 2021/1428, **ergl. 2** ac (10.6.2022) gan O.S. 2022/663, **ergl. 2** ac (21.8.2023) gan O.S. 2023/932, **ergl. 2**)
- I170** A. 63 mewn grym ar 1.1.2022 at ddibenion penodedig gan O.S. 2021/1244, **ergl. 3(I)** (ynghyd ag **erglau. 4-21**) (fel y'u diwygiwyd gan O.S. 2021/1428, **ergl. 3** ac (10.6.2022) gan O.S. 2022/663, **ergl. 3** ac (21.8.2023) gan O.S. 2023/932, **ergl. 3**)
- I171** A. 63 mewn grym ar 1.9.2022 at ddibenion penodedig gan O.S. 2022/891, **ergl. 3(I)** (ynghyd ag **erglau. 4-25**) (fel y'u diwygiwyd (21.8.2023) gan O.S. 2023/932, **ergl. 4**)
- I172** A. 63 mewn grym ar 1.9.2022 at ddibenion penodedig gan O.S. 2022/896, **ergl. 3(I)** (ynghyd ag **erglau. 4-22**) (fel y'u diwygiwyd (21.8.2023) gan O.S. 2023/932, **ergl. 5**)
- I173** A. 63 mewn grym ar 1.9.2022 at ddibenion penodedig gan O.S. 2022/897, **ergl. 3(I)** (ynghyd ag **erglau. 1(8), 4-21**) (fel y'u diwygiwyd (21.8.2023) gan O.S. 2023/932, **ergl. 6**)

#### 64 Dyletswydd cyrff ieched i hysbysu rhieni etc.

- (1) Mae'r adran hon yn gymwys pan fo corff ieched a grybwyllir yn is-adran (2), wrth arfer ei swyddogaethau mewn perthynas â phlentyn sydd o dan yr oedran ysgol gorfodol ac y mae awdurdod lleol yn gyfrifol amdano, yn ffurfio barn bod gan y plentyn, neu ei bod yn debygol bod gan y plentyn, anghenion dysgu ychwanegol.

*Statws Golwg cyfnod mewn amser fel yr oedd ar 21/08/2023.*

*Newidiadau i ddeddfwriaeth: Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018, PENNOD 3 yn gyfredol gyda'r holl newidiadau y gwyddys eu bod mewn grym ar neu cyn 21 Mehefin 2024. Mae newidiadau a all gael eu dwyn i rym yn y dyfodol. Mae newidiadau a wnaed yn ymddangos yn y cynnwys a chyfeirir atynt trwy anodiadau. (See end of Document for details)*

- (2) Y cyrff iechyd yw—
- (a) Bwrdd Iechyd Lleol;
  - (b) ymddiriedolaeth GIG;
  - [<sup>F1</sup>(c) bwrdd gofal integredig;]
  - (d) ymddiriedolaeth sefydledig GIG;
  - (e) Awdurdod Iechyd Arbennig.
- (3) Rhaid i'r corff iechyd roi gwybod i riant y plentyn am ei farn ac am ei ddyletswydd yn is-adran (4).
- (4) Ar ôl rhoi cyfle i'r rhiant i drafod barn y corff iechyd â swyddog o'r corff, rhaid i'r corff iechyd ddwyn y farn i sylw'r awdurdod lleol sy'n gyfrifol am y plentyn neu, os yw'r plentyn yn blentyn sy'n derbyn gofal, i sylw'r awdurdod lleol sy'n gofalu am y plentyn, os yw'r corff iechyd wedi ei fodloni y byddai gwneud hynny er lles pennaf y plentyn.
- (5) Os yw'r corff iechyd o'r farn bod sefydliad gwirfoddol penodol yn debygol o allu rhoi cyngor neu gymorth arall i'r rhiant mewn cysylltiad ag unrhyw anghenion dysgu ychwanegol a all fod gan y plentyn, rhaid iddo roi gwybod i'r rhiant yn unol â hynny.

#### Diwygiadau Testunol

**F1** A. 64(2)(c) wedi ei amnewid (1.7.2022) gan [Health and Care Act 2022 \(c. 31\)](#), a. 186(6), **Atod. 4 para. 232(b)**; O.S. 2022/734, rhl. 2(a), Atod. (ynghyd â rhlau. 13, 29, 30)

#### Addasiadau (ddim yn newid testun)

**C1** A. 64(3)(4) addaswyd (1.9.2021) gan [Rheoliadau Anghenion Dysgu Ychwanegol \(Cymru\) 2021 \(O.S. 2021/401\)](#), rhlau. 1(2), **35(1)(m)**

#### Gwybodaeth Cychwyn

- I174** A. 64 ddim mewn grym ar y Cydsyniad Brenhinol, gweler **a. 100(3)**
- I175** A. 64 mewn grym ar 1.9.2021 at ddibenion penodedig gan O.S. 2021/373, **erglau. 3, 4** (fel y'u diwygiwyd gan O.S. 2021/938, **ergl. 2(3)**)
- I176** A. 64 mewn grym ar 1.9.2021 at ddibenion penodedig gan O.S. 2021/373, **erglau. 6, 7** (fel y'u diwygiwyd gan O.S. 2021/938, **ergl. 2(4)(5)**)
- I177** A. 64 mewn grym ar 1.1.2022 at ddibenion penodedig gan O.S. 2021/1245, **erglau. 3(1)**, 4 (ynghyd ag **ergl. 1(4)**)
- I178** A. 64 mewn grym ar 1.9.2022 at ddibenion penodedig gan O.S. 2022/894, **ergl. 3(1)**
- I179** A. 64 mewn grym ar 1.9.2022 at ddibenion penodedig gan O.S. 2022/895, **erglau. 3(1)**, 4
- I180** A. 64 mewn grym ar 1.9.2022 at ddibenion penodedig gan O.S. 2022/898, **erglau. 2(1)**, 3
- I181** A. 64 mewn grym ar 1.9.2022 at ddibenion penodedig gan O.S. 2022/892, **ergl. 3(1)** (ynghyd ag **erglau. 2, 4-18**)
- I182** A. 64 mewn grym ar 1.9.2022 at ddibenion penodedig gan O.S. 2022/893, **ergl. 4** (ynghyd ag **ergl. 1(2)**)
- I183** A. 64 mewn grym ar 1.1.2022 at ddibenion penodedig gan O.S. 2021/1243, **ergl. 3(1)** (ynghyd ag **erglau. 4-23**) (fel y'u diwygiwyd gan O.S. 2021/1428, **ergl. 2** ac (10.6.2022) gan O.S. 2022/663, **ergl. 2** ac (21.8.2023) gan O.S. 2023/932, **ergl. 2**)
- I184** A. 64 mewn grym ar 1.1.2022 at ddibenion penodedig gan O.S. 2021/1244, **ergl. 3(1)** (ynghyd ag **erglau. 4-21**) (fel y'u diwygiwyd gan O.S. 2021/1428, **ergl. 3** ac (10.6.2022) gan O.S. 2022/663, **ergl. 3** ac (21.8.2023) gan O.S. 2023/932, **ergl. 3**)
- I185** A. 64 mewn grym ar 1.9.2022 at ddibenion penodedig gan O.S. 2022/891, **ergl. 3(1)** (ynghyd ag **erglau. 4-25**) (fel y'u diwygiwyd (21.8.2023) gan O.S. 2023/932, **ergl. 4**)

*Statws Golwg cyfnod mewn amser fel yr oedd ar 21/08/2023.*

*Newidiadau i ddeddfwriaeth: Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018, PENNOD 3 yn gyfredol gyda'r holl newidiadau y gwyddys eu bod mewn grym ar neu cyn 21 Mehefin 2024. Mae newidiadau a all gael eu dwyn i rym yn y dyfodol. Mae newidiadau a wnaed yn ymddangos yn y cynnwys a chyfeirir atynt trwy anodiadau. (See end of Document for details)*

- I186** A. 64 mewn grym ar 1.9.2022 at ddibenion penodedig gan O.S. 2022/896, **ergl. 3(1)** (ynghyd ag **erglau. 4-22**) (fel y'u diwygiwyd (21.8.2023) gan O.S. 2023/932, **ergl. 5**)
- I187** A. 64 mewn grym ar 1.9.2022 at ddibenion penodedig gan O.S. 2022/897, **ergl. 3(1)** (ynghyd ag **erglau. 1(8), 4-21**) (fel y'u diwygiwyd (21.8.2023) gan O.S. 2023/932, **ergl. 6**)

## 65 Dyletswyddau i ddarparu gwybodaeth a help arall

- (1) Mae is-adran (2) yn gymwys os yw awdurdod lleol yn gofyn i berson a grybwyllir yn is-adran (4) arfer swyddogaethau'r person i ddarparu gwybodaeth neu help arall i'r awdurdod, sy'n ofynnol ganddo at ddiben arfer ei swyddogaethau o dan y Rhan hon.
- (2) Rhaid i'r person gydymffurfio â'r cais oni bai bod y person yn ystyried y byddai gwneud hynny—
  - (a) yn anghydnaws â dyletswyddau'r person ei hun, neu
  - (b) fel arall yn cael effaith andwyol ar arfer swyddogaethau'r person.
- (3) Rhaid i berson sy'n penderfynu peidio â chydymffurfio â chais o dan is-adran (1) roi rhesymau ysgrifenedig dros y penderfyniad i'r awdurdod lleol a wnaeth y cais.
- (4) Y personau yw—
  - (a) awdurdod lleol arall;
  - (b) awdurdod lleol yn Lloegr;
  - (c) corff llywodraethu ysgol a gynhelir yng Nghymru neu yn Lloegr;
  - (d) corff llywodraethu sefydliad yn y sector addysg bellach yng Nghymru neu yn Lloegr;
  - (e) perchennog Academi;
  - (f) tîm troseddwr ifanc ar gyfer ardal yng Nghymru neu yn Lloegr;
  - (g) person a chanddo gyfrifoldeb am lety ieuencid perthnasol yng Nghymru neu yn Lloegr;
  - (h) Bwrdd Iechyd Lleol;
  - (i) ymddiriedolaeth GIG;
  - [<sup>F2</sup>(j) GIG Lloegr;]
  - [<sup>F3</sup>(k) bwrdd gofal integredig;]
  - (l) ymddiriedolaeth sefydledig GIG;
  - (m) Awdurdod Iechyd Arbennig.
- (5) Caiff rheoliadau ddarparu, pan fo person o dan ddyletswydd i gydymffurfio â chais o dan yr adran hon, fod rhaid i'r person gydymffurfio â'r cais o fewn cyfnod rhagnodedig, oni bai bod eithriad rhagnodedig yn gymwys.

### Diwygiadau Testunol

- F2** A. 65(4)(j) wedi ei amnewid (1.7.2022) gan Health and Care Act 2022 (c. 31), a. 186(6), **Atod. 1 para. 36(b)**; O.S. 2022/734, rhl. 2(a), **Atod.** (ynghyd â rhlau. 13, 29, 30)
- F3** A. 65(4)(k) wedi ei amnewid (1.7.2022) gan Health and Care Act 2022 (c. 31), a. 186(6), **Atod. 4 para. 233(b)**; O.S. 2022/734, rhl. 2(a), **Atod.** (ynghyd â rhlau. 13, 29, 30)

### Gwybodaeth Cychwyn

- I188** A. 65 ddim mewn grym ar y Cydsyniad Brenhinol, gweler **a. 100(3)**
- I189** A. 65 mewn grym ar 2.11.2020 at ddibenion penodedig gan O.S. 2020/1182, **rhl. 3(1)(h)**

*Statws Golwg cyfnod mewn amser fel yr oedd ar 21/08/2023.*

*Newidiadau i ddeddfwriaeth: Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018, PENNOD 3 yn gyfredol gyda'r holl newidiadau y gwyddys eu bod mewn grym ar neu cyn 21 Mehefin 2024. Mae newidiadau a all gael eu dwyn i rym yn y dyfodol. Mae newidiadau a wnaed yn ymddangos yn y cynnwys a chyfeirir atynt trwy anodiadau. (See end of Document for details)*

- I190** A. 65 mewn grym ar 1.9.2021 at ddibenion penodedig gan O.S. 2021/373, **erglau. 3, 4** (fel y'u diwygiwyd gan O.S. 2021/938, **ergl. 2(3)**)
- I191** A. 65 mewn grym ar 1.9.2021 at ddibenion penodedig gan O.S. 2021/373, **erglau. 6, 7** (fel y'u diwygiwyd gan O.S. 2021/938, **ergl. 2(4)(5)**)
- I192** A. 65 mewn grym ar 1.1.2022 at ddibenion penodedig gan O.S. 2021/1245, **erglau. 3(I), 4** (ynghyd ag **ergl. 1(4)**)
- I193** A. 65 mewn grym ar 1.9.2022 at ddibenion penodedig gan O.S. 2022/898, **erglau. 2(I), 3**
- I194** A. 65 mewn grym ar 1.9.2022 at ddibenion penodedig gan O.S. 2022/894, **ergl. 3(I)**
- I195** A. 65 mewn grym ar 1.9.2022 at ddibenion penodedig gan O.S. 2022/893, **ergl. 4** (ynghyd ag **ergl. 1(2)**)
- I196** A. 65 mewn grym ar 1.9.2022 at ddibenion penodedig gan O.S. 2022/895, **erglau. 3(I), 4**
- I197** A. 65 mewn grym ar 1.9.2022 at ddibenion penodedig gan O.S. 2022/892, **ergl. 3(I)** (ynghyd ag **erglau. 2, 4-18**)
- I198** A. 65 mewn grym ar 1.1.2022 at ddibenion penodedig gan O.S. 2021/1243, **ergl. 3(I)** (ynghyd ag **erglau. 4-23**) (fel y'u diwygiwyd gan O.S. 2021/1428, **ergl. 2** ac (10.6.2022) gan O.S. 2022/663, **ergl. 2** ac (21.8.2023) gan O.S. 2023/932, **ergl. 2**)
- I199** A. 65 mewn grym ar 1.1.2022 at ddibenion penodedig gan O.S. 2021/1244, **ergl. 3(I)** (ynghyd ag **erglau. 4-21**) (fel y'u diwygiwyd gan O.S. 2021/1428, **ergl. 3** ac (10.6.2022) gan O.S. 2022/663, **ergl. 3** ac (21.8.2023) gan O.S. 2023/932, **ergl. 3**)
- I200** A. 65 mewn grym ar 1.9.2022 at ddibenion penodedig gan O.S. 2022/891, **ergl. 3(I)** (ynghyd ag **erglau. 4-25**) (fel y'u diwygiwyd (21.8.2023) gan O.S. 2023/932, **ergl. 4**)
- I201** A. 65 mewn grym ar 1.9.2022 at ddibenion penodedig gan O.S. 2022/896, **ergl. 3(I)** (ynghyd ag **erglau. 4-22**) (fel y'u diwygiwyd (21.8.2023) gan O.S. 2023/932, **ergl. 5**)
- I202** A. 65 mewn grym ar 1.9.2022 at ddibenion penodedig gan O.S. 2022/897, **ergl. 3(I)** (ynghyd ag **erglau. 1(8), 4-21**) (fel y'u diwygiwyd (21.8.2023) gan O.S. 2023/932, **ergl. 6**)

## 66 Hawl awdurdod lleol i gael mynediad i fangroedd ysgolion a sefydliadau eraill

- (1) Mae'r adran hon yn gymwys pan fo awdurdod lleol yn cynnal cynllun datblygu unigol o dan y Rhan hon ar gyfer plentyn neu berson ifanc.
- (2) Mae hawl gan berson sydd wedi ei awdurdodi gan yr awdurdod lleol i gael mynediad ar unrhyw adeg resymol i unrhyw fan lle y darperir addysg neu hyfforddiant ar gyfer y plentyn neu'r person ifanc ym mangre sefydliad a restrir yn is-adran (3) os yw mynediad i'r man hwnnw'n angenrheidiol at ddiben arfer swyddogaethau'r awdurdod lleol o dan y Rhan hon.
- (3) Y sefydliadau yw—
  - (a) ysgol annibynnol yng Nghymru neu yn Lloegr;
  - (b) ysgol a gynhelir yn ardal awdurdod lleol arall yng Nghymru neu yn Lloegr;
  - (c) sefydliad yn y sector addysg bellach yng Nghymru neu yn Lloegr;
  - (d) Academi;
  - (e) ysgol arbennig nas cynhelir;
  - (f) sefydliad ôl-16 arbennig annibynnol sydd wedi ei gynnwys yn y rhestr o dan adran 56.

### Gwybodaeth Cychwyn

**I203** A. 66 ddim mewn grym ar y Cydsyniad Brenhinol, gweler **a. 100(3)**

**I204** A. 66 mewn grym ar 1.9.2021 at ddibenion penodedig gan O.S. 2021/373, **erglau. 6, 7** (fel y'u diwygiwyd gan O.S. 2021/938, **ergl. 2(4)(5)**)



*Statws Golwg cyfnod mewn amser fel yr oedd ar 21/08/2023.*

*Newidiadau i ddeddfwriaeth: Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018, PENNOD 3 yn gyfredol gyda'r holl newidiadau y gwyddys eu bod mewn grym ar neu cyn 21 Mehefin 2024. Mae newidiadau a all gael eu dwyn i rym yn y dyfodol. Mae newidiadau a wnaed yn ymddangos yn y cynnwys a chyfeirir atynt trwy anodiadau. (See end of Document for details)*

- I205** A. 66 mewn grym ar 1.9.2021 at ddibenion penodedig gan O.S. 2021/373, **erglau. 3, 4** (fel y'u diwygiwyd gan O.S. 2021/938, **ergl. 2(3)**)
- I206** A. 66 mewn grym ar 1.1.2022 at ddibenion penodedig gan O.S. 2021/1245, **erglau. 3(I), 4** (ynghyd ag **ergl. 1(4)**)
- I207** A. 66 mewn grym ar 1.9.2022 at ddibenion penodedig gan O.S. 2022/894, **ergl. 3(I)**
- I208** A. 66 mewn grym ar 1.9.2022 at ddibenion penodedig gan O.S. 2022/893, **ergl. 4** (ynghyd ag **ergl. 1(2)**)
- I209** A. 66 mewn grym ar 1.9.2022 at ddibenion penodedig gan O.S. 2022/895, **erglau. 3(I), 4**
- I210** A. 66 mewn grym ar 1.9.2022 at ddibenion penodedig gan O.S. 2022/898, **erglau. 2(I), 3**
- I211** A. 66 mewn grym ar 1.9.2022 at ddibenion penodedig gan O.S. 2022/892, **ergl. 3(I)** (ynghyd ag **erglau. 2, 4-18**)
- I212** A. 66 mewn grym ar 1.1.2022 at ddibenion penodedig gan O.S. 2021/1243, **ergl. 3(I)** (ynghyd ag **erglau. 4-23**) (fel y'u diwygiwyd gan O.S. 2021/1428, **ergl. 2**, (10.6.2022) gan O.S. 2022/663, **ergl. 2** ac (21.8.2023) gan (O.S. 2023/932), **ergl. 2**)
- I213** A. 66 mewn grym ar 1.1.2022 at ddibenion penodedig gan O.S. 2021/1244, **ergl. 3(I)** (ynghyd ag **erglau. 4-21**) (fel y'u diwygiwyd gan O.S. 2021/1428, **ergl. 3**, (10.6.2022) gan O.S. 2022/663, **ergl. 3** ac (21.8.2023) gan (O.S. 2023/932), **ergl. 3**)
- I214** A. 66 mewn grym ar 1.9.2022 at ddibenion penodedig gan O.S. 2022/891, **ergl. 3(I)** (ynghyd ag **erglau. 4-25**) (fel y'u diwygiwyd gan (21.8.2023) (O.S. 2023/932), **ergl. 4**)
- I215** A. 66 mewn grym ar 1.9.2022 at ddibenion penodedig gan O.S. 2022/896, **ergl. 3(I)** (ynghyd ag **erglau. 4-22**) (fel y'u diwygiwyd gan (21.8.2023) gan (O.S. 2023/932), **ergl. 5**)
- I216** A. 66 mewn grym ar 1.9.2022 at ddibenion penodedig gan O.S. 2022/897, **ergl. 3(I)** (ynghyd ag **erglau. 1(8), 4-21** (fel y'u diwygiwyd (21.8.2023) gan (O.S. 2023/932), **ergl. 6**)

## 67 Darparu nwyddau neu wasanaethau mewn perthynas â darpariaeth ddysgu ychwanegol

- (1) Caiff rheoliadau ddarparu i awdurdod lleol gyflenwi nwyddau neu wasanaethau i—
- person sy'n arfer swyddogaethau o dan y Rhan hon, neu
  - person sy'n gwneud darpariaeth ddysgu ychwanegol mewn cysylltiad ag arfer swyddogaethau o dan y Rhan hon.
- (2) Caiff y rheoliadau, ymhlith pethau eraill, ddarparu ar gyfer y telerau a'r amodau y caniateir i nwyddau a gwasanaethau gael eu cyflenwi yn unol â hwy.

### Gwybodaeth Cychwyn

**I217** A. 67 ddim mewn grym ar y Cysyniad Brenhinol, gweler **a. 100(3)**

**I218** A. 67 mewn grym ar 2.11.2020 gan O.S. 2020/1182, **rhl. 2(f)**

**Statws**

Golwg cyfnod mewn amser fel yr oedd ar 21/08/2023.

**Newidiadau i ddeddfwriaeth:**

Deddf Anghenion Dysgu Ychwanegol a'r Tribiwnlys Addysg (Cymru) 2018, PENNOD 3 yn gyfredol gyda'r holl newidiadau y gwyddys eu bod mewn grym ar neu cyn 21 Mehefin 2024. Mae newidiadau a all gael eu dwyn i rym yn y dyfodol. Mae newidiadau a wnaed yn ymddangos yn y cynnwys a chyfeirir atynt trwy anodiadau.